YMWELIAD DATBLYGU MASNACH

# Ffrainc

PRYD
**24 April – 27 April 2023**

SECTORAU ALLWEDDOL
**Bwyd a Diod**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## PAM FFRAINC?

Yn dilyn llwyddiant Llywodraeth Cymru ynghlwm â SIAL 2022, mae cyfle gwych i gwmnïau Bwyd a Diod Cymru fynd ati i allforio'u cynnyrch i Ffrainc.

Ffrainc ydy'r ail farchnad allforio fwyaf ar gyfer Bwyd a Diod Cymru, gyda chyfanswm gwerth o £100m yn 2021 sy'n gynnydd o £72m ers y flwyddyn flaenorol. Y categori allforio mwyaf gwerthfawr oedd Cig a Chynnyrch Cig oedd yn £68m, ac yna Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd oedd yn £9m. Bu i'r DU allforio gwerth £2.3biliwn o nwyddau bwyd a diod i Ffrainc yn 2021. Bu cynnydd o 21.2% yng ngweithgarwch mewnforio nwyddau yn Ffrainc yn 2021, ac maen nhw'n meddu ar y 5ed farchnad bwyd pecyn mwyaf yn y byd.

Mae'r farchnad Ffrengig yn soffistigedig gan dalu sylw manwl i ansawdd a'r gallu i olrhain bwydydd. Erbyn hyn, mae Ffrainc wrthi'n croesawu mwy o fwydydd rhyngwladol nac erioed o'r blaen.

Eleni, bydd modd amlygu Cymru ymhellach gan fod Ffrainc yn cynnal Cwpan Rygbi'r Byd 2023, sy'n gyfle gwerth chweil i hyrwyddo Bwyd a Diod o Gymru.

## DYMA'R CATEGORÏAU GALLAI FOD FWYAF LLWYDDIANNUS

Mae ein harbenigwyr marchnad o'r farn fod gan y categorïau canlynol botensial sylweddol arbennig.

- Cig
- Bwyd Môr
- Byrbrydau Sawrus
- Cynnyrch Organig / 'Heb Glwten'

**Os ydych chi'n gwerthu'r cynnyrch hyn, hoffem glywed gennych chi!**

## BETH I'W DDISGWYL?

Bydd y canlynol ynghlwm ag Ymweliad Datblygu Masnach i Ffrainc:

- Gweminar Marchnad
- Ymgynghoriadau gydag ymgynghorydd sy'n rhan o'r farchnad
- Cenhadaeth fasnach i'r farchnad
- Teithio wedi'i drefnu, bydd cost i gymryd rhan (mwyafswm o 2 gynrychiolydd o bob busnes)
- Cyfarwyddyd ynghlwm â'r farchnad gyda siaradwyr allweddol
- Rhaglen ymweld â siopau
- Amserlen cyfarfodydd ynghlwm â'r farchnad gyda phrynwyr
- Gweithgaredd rhwydweithio
- Ymweliad i sioe fasnach briodol (os ydy'r amseroedd yn cyd-fynd)
- Cymorth / cyfieithu ynghlwm â'r farchnad

## BETH YDY'R DYDDIADAU ALLWEDDOL?

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: **Ionawr yr 20fed 2023**.

Bydd cyfarfodydd rhithiol 1-i-1 gyda'r tîm marchnad penodol yn ystod **Canol Ionawr 2023**.

Bydd Cyfarwyddyd Marchnad rhithiol ar gychwyn mis **Ebrill 2023**.

Bydd yr ymweliad wyneb yn wyneb yn ystod Ebrill y **24ain – Ebrill y 27ain 2023**.

## PWY SY'N GYMWYS I FANTEISIO AR YR YMWELIAD DATBLYGU MASNACH HWN?

Gallai'r holl gynhyrchwyr Bwyd a Diod sy'n gweithredu yng Nghymru ymgeisio i fod yn rhan o'r Ymweliad Datblygu Masnach hwn.

## BETH YDY'R GOST?

Cost y Datblygiad Datblygu Masnach hwn ydy **£750.00 heb gynnwys TAW**.

## SUT I YMGEISIO?

Dilynwch y ddolen hon i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein:

**https://kineticcubed.formstack.com/forms/food_and_drinks_wales_trade_development_visits_2022_23_france**

WG46488 / © Hawlfraint y Goron 2023 OGL